**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Ystafell Bwyllgor 3A - Neuadd y Ddinas, Abertawe.Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S E Crouch | C R Evans | E W Fitzgerald |
| L S Gibbard | D W Helliwell | T J Hennegan |
| C A Holley | P Jones | I E Mann |
| G J Tanner | W G Thomas | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | J W Jones | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gail Evans | Prif Reolwr Adfywio |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: P M Black, B Hopkins a/ac E J King
Aelod Cyfetholedig: D Anderson-Thomas a/ac P M Black

---

## 52 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 53 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 54 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**55 Craffu Cyn Penderfynu: Adfywio Sgwâr y Castell.**

Roedd yr Arweinydd, Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr, a Gail Evans, y Prif Swyddog Adfywio, yn bresennol er mwyn i'r pwyllgor ystyried adroddiad y Cabinet ar 'Adfywio Sgwâr y Castell'.

Rhoddodd y Prif Reolwr Adfywio grynodeb o brif bwyntiau'r adroddiad. Amlygodd opsiynau am y lleoliad ar gyfer y datblygiad newydd yn ogystal â'r opsiynau cyflwyno sydd ar gael. Nodwyd rhinweddau'r opsiynau amrywiol yn yr adroddiad yn ogystal â'r opsiwn argymelledig a ffafriwyd ar gyfer pob un. Argymhellwyd yn yr adroddiad y dylid llunio brîff llawn ar ddatblygu, mannau cyhoeddus a marchnata ar sail yr opsiynau a ffefrir.

Nododd yr Arweinydd bwysigrwydd y ffaith bod y datblygiad yn gweithio ar y cyd â datblygiadau eraill a gynigir ar gyfer y ddinas, megis datblygiad Dewi Sant, i gyflwyno canol dinas modern.

Amlygodd Aelod y Cabinet dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Phrosiectau Mawr yr angen am gynigion masnachol fel rhan o'r datblygiad. Mae adnoddau yn brin a bydd y cynigion masnachol yn creu incwm am gyfer cynnal a chadw'r datblygiad newydd.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r Arweinydd, Aelod y Cabinet a'r Prif Aelod Adfywio a ganolbwyntiodd ar y canlynol: -

- A fyddai digon o arian i gynnal y datblygiad a sicrhau'r incwm a grëir gan y cynnig masnachol ar gyfer cynnal a chadw'r Sgwâr
- A fyddai'r cynnydd mewn llety myfyrwyr yng nghanol y ddinas yn effeithio ar ddefnydd arfaethedig yr ardal
- Risg ariannol cost y datblygiad - cael bwlch arian a/neu beidio â chreu diddordeb priodol yn y safle i greu incwm digonol
- Croesawyd y cynnig i osgoi colli coed a phlannu blodau gwyllt a amlygwyd yn yr adroddiad
- Y cynnig masnachol mwyaf priodol - a fyddai caffis llai o faint sy'n cynnig lleoliadau mwy hamddenol yn fwy priodol na bwyty
- Pryderon ynglŷn â cholli lle cyhoeddus a chysondeb defnydd presennol y sgwâr ar gyfer gwrthdystiadau, gorymdeithiau, marchnadoedd, etc. gyda chynigion masnachol
- Y gallu i ddenu cynigion masnachol priodol i'r lleoliad
- Gwahanu cerddwyr a thraffig
- Lle chwarae ffurfiol ar gyfer canol y ddinas
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Sgwâr y Castell
- Pryder y byddai'r datblygiad newydd yn dod yn estyniad o Stryd y Gwynt
- Lleoliad y sgrîn fawr yn Sgwâr y Castell

Ystyriodd y pwyllgor yr argymhellion arfaethedig yn yr adroddiad a chododd unrhyw faterion a phryderon y dylid dwyn sylw'r Cabinet atynt cyn ei benderfyniad ar 19 Hydref 2017.

Er bod y pwyllgor wedi cytuno i rannau helaeth fod angen adfywio'r ardal, amlygodd y pwyllgor nifer o faterion y dylai'r Cabinet eu hystyried:

- Risg ariannol
- Ai dyma'r amser priodol ar gyfer y datblygiad
- Eglurhad o gwmpas y gwaith cynnal a chadw
- Cadw lle cyhoeddus
- Gwahanu cerddwyr a thraffig

**Penderfynwyd** y dylai Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Craffu ysgrifennu at Aelod y Cabinet am farn y Pwyllgor, er mwyn i'r Cabinet eu hystyried.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.10 pm

**Cadeirydd**